



Strategaeth Atal Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant CYSUR

Awst 2015

Teitl: Strategaeth Atal Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant CYSUR	Statws: Cymeradwywyd gan Fwrdd Gweithredol CYSUR	Dyddiad y fersiwn: Awst 2015
--	---	---

1. Cyflwyniad

Cytunodd Bwrdd Gweithredol CYSUR i sicrhau ymateb cyson ledled y rhanbarth i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CRhB) drwy ddatblygu strategaeth a chynllun gweithredu CRhB amlasiantaethol, rhanbarthol yn seiliedig ar Gynllun Gweithredu Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant gan y Coleg Plismona, ac adolygiad Operation Celtic sy'n cael ei gynnal gan Heddlu Dyfed Powys. Datblygwyd Strategaeth Atal Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant CYSUR drwy gyfrwng grŵp gorchwyl a gorffen amlasiantaethol, sydd wedi adolygu Cynllun Gweithredu CRhB Heddlu Dyfed Powys a'r adroddiad interim gan adolygiad Operation Celtic. Cytunwyd ar aelodaeth y grŵp gan is-grŵp strategol CYSUR ac asiantaethau sy'n rhan ohono. Mae protocolau ac arweiniad cenedlaethol, ymchwil berthnasol ac esiamplau o arfer da hefyd wedi cael eu hystyried gan aelodau'r grŵp. Mae rhestr o'r dogfennau a ystyriwyd wrth ddatblygu'r strategaeth hon wedi ei chynnwys yn Atodiad 2.

Tra bu'r strategaeth ranbarthol hon yn cael ei datblygu, cyhoeddwyd y bydd Llywodraeth Cymru yn arwain ar ddatblygu Cynllun Gweithredu CRhB ar gyfer Cymru, gan gynnwys set ddata i'w gwneud yn bosibl adrodd yn gywir ac yn gyson am CRhB. Bydd strategaeth a chynllun gweithredu CRhB CYSUR yn cymryd sylw o unrhyw ofynion fydd yn codi o Gynllun Gweithredu Cymru.

Beth yw Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant?

Datblygwyd nifer o ddiffiniadau o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Cymerwyd y diffiniad isod allan o Brotocol Cymru Gyfan ar gyfer Diogelu a Hybu Lles Plant sydd mewn Perygl o Gamdriniaeth drwy Gamfanteisio Rhywiol (AWCPPRG, 2013). Mae Heddlu Dyfed Powys wedi mabwysiadu diffiniad cytunedig, cenedlaethol Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) o CRhB, sydd wedi ei gynnwys yn Atodiad 2.

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yw gorfodi neu arwain plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Mae'n ffurf ar gamdriniaeth rywiol sy'n cynnwys cyfnewid rhyw fath o daliad a all olygu arian, ffonau symudol ac eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, lle i aros, 'amddiffyniad' neu serch.

Mae natur agored i niwed y person ifanc a'r broses o feithrin perthynas a ddefnyddir gan gyflawnwyr yn peri bod y person yn analluog i adnabod natur gamfanteisiol perthynas ac yn methu â rhoi cydsyniad gwybodus.

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant (CRhB) yn cynnwys:

- *camdriniaeth drwy gyfnewid gweithgaredd rhywiol am ryw fath o daliad.*
- *camdriniaeth drwy gynhyrchu delweddau anwedus a/neu unrhyw ddeunydd anwedus arall yn cynnwys plant, boed yn ffotograffau, ffilmiau neu dechnolegau eraill.*
- *camdriniaeth drwy feithrin perthynas boed hynny drwy gyswllt uniongyrchol neu'r defnydd o dechnolegau megis ffonau symudol a'r rhyngwyd.*
- *camdriniaeth drwy fasnachu i ddibenion rhywiol.*

Nid yw plant yn gwirfoddoli i rywun gamfanteisio'n rhywiol arnynt ac ni allant gydsynio i'w camdriniaeth eu hunain; maent yn cael eu gorfodi a/neu eu gwthio.

Mae'r diffiniad yn berthnasol i fechgyn a merched hyd at 18 mlwydd oed, p'un a ydynt yn byw'n annibynnol neu beidio, gartref, gyda gofalwyr, neu mewn lleoliad preswyl.

Mae yna wendidau neilltuol a dangosyddion risg sydd wedi eu nodi drwy ymchwil a mentrau seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas â CRhB.

Agored i CRhB

Mae plant yn fwy agored i gamdriniaeth drwy gamfanteisio rhywiol os oes ganddynt brofiad o un neu ragor o'r canlynol.

- Cam-drin plant yn rhywiol;
- Trais domestig yn y teulu;
- Y teulu wedi chwalu;
- Cam-drin corfforol ac amddifadedd emosiynol;
- Bwlio yn yr ysgol a thu allan;
- Teulu'n cymryd rhan mewn camfanteisio rhywiol;
- Rhieni â lefel uchel o wendidau (cyffuriau / alcohol / iechyd meddwl ac ati);
- Cyffuriau / alcohol / iechyd meddwl neu anawsterau eraill eu hunain;
- Digartrefedd neu fyw mewn sefyllfaoedd anniogel;
- Derbyn gofal mewn cartref gofal preswyl; a
- Mynd ar goll yn aml.

Safeguarding children abused through sexual exploitation, Bwrdd Llundain 2006

Dangosyddion risg CRhB

Mae yna nifer o arwyddion di-ffael fod plentyn wrthi'n cael ei baratoi ar gyfer camfanteisio rhywiol; mae'r rhain yn cynnwys:

- mynd ar goll am gyfnodau o amser neu ddychwelyd adref yn hwyr yn gyson
- colli'r ysgol yn rheolaidd neu ddim yn cymryd rhan mewn addysg;
- ymddangos gydag anrhegion neu eiddo newydd anesboniadwy;
- cymysgu gyda phobl ifanc eraill sydd â rhan mewn camfanteisio;
- cariadon hŷn ymhlith merched neu fechgyn;
- dioddef o heintiau a drosglwyddir yn rhywiol;
- hwyliau oriog neu newidiadau mewn lles emosiynol;
- camddefnyddio cyffuriau ac alcohol;
- arddangos ymddygiad rhywiol dig amhriodol.

Gellir gweld afiechyd rhiant fel gwendid ac fel dangosydd risg o CRhB.

'Spot the signs' (taflen ymgyrch Cut Them Free ar gyfer gweithwyr proffesiynol); Barnardo's (2012)

2. Beth wyddom ni am gamfanteisio'n rhywiol ar blant yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

Mae Heddlu Dyfed Powys wedi cynhyrchu dadansoddiad o droseddau CRhB a gofnodwyd rhwng y 1^{af} o Ionawr a'r 31^{ain} o Ragfyr 2014 a phroffil o blant a aseswyd fel rhai oedd mewn perygl o CRhB ym mis Mawrth 2015. Rhydd y proffil CRhB, sy'n deillio o'r dadansoddiad hwn, ddarlun amlinellol o'r hyn a wyddom am gyffredinolrwydd a natur CRhB ar draws rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Troseddau CRhB

Nodwyd 53 o droseddau fel rhai oedd yn gysylltiedig â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn 2014. Roedd 91% o'r plant a ddioddefodd yn ferched a 9% yn fechgyn. Roedd 73% o'r merched a ddioddefodd rhwng 13 a 15 mlwydd oed. Câi merched eu gwthio yn bennaf gan serch neu ddiffyg cydbwysedd grym gyda chariad hŷn tra roedd bechgyn wedi dioddef camfanteisio drwy fygythiadau o drais neu dalu arian. O ran y merched, roedd mwyafrif y troseddwr yn oedolion. I'r gwrthwyneb, roedd pob un o'r troseddwr a gyflawnodd drosedd ar fechgyn yn blant eu hunain.

Cafodd mwyafrif y troseddau eu cyflawni gan droseddwr unig oedd yn byw gan mwyaf yn ardal yr heddlu. Yn wahanol i ymchwiliadau proffil uchel eraill i CRhB, er enghraifft, Rochdale, Rotherham ac yn y blaen, nid oes troseddau y gellir eu categorio fel CRhB cysylltiedig â grwpiau stryd/gangiau neu gysylltiedig ag unrhyw grŵp lleiafrifol. Ni wnaeth ffactorau megis derbyn bwyd, llety, cyffuriau ac alcohol ddod i'r amlwg fel materion yn Nyfed Powys yn ystod cyfnod cynhyrchu'r proffil hwn.

Cyfarfu mwyafrif y dioddefwyr (74%) y troseddwr wyneb yn wyneb mewn amrywiaeth mawr o leoliadau, megis lleoliadau cyhoeddus, cymdeithasol, ysgolion neu golegau tra y cyfarfu'r 26% arall eu troseddwr ar-lein.

Mewn 75% o droseddau, digwyddodd cyswllt rhywiol. Digwyddodd hanner y rhain mewn lleoliad personol, megis tŷ neu gar y troseddwr, tŷ'r dioddefwr neu yng nghartref ffrind neu berthynas gyda'r troseddwr yn adnabyddus i'r dioddefwr. Digwyddodd yr hanner arall mewn lle cyhoeddus. Ni chanfuwyd bod lleoliadau yn ailadrodd.

Daeth 47% o'r atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan berthnasau neu gyfeillion y dioddefwr / troseddwr; daeth 17% arall o'r atgyfeiriadau oddi wrth Gynghorwyr Ysgol, Athrawon neu Nyrsys. Mae'r ffaith hon yn tynnu sylw at y grwpiau y dylid eu targedu ar gyfer hyfforddiant ymwybyddiaeth er mwyn cynyddu gwybodaeth gweithwyr proffesiynol am arwyddion CRhB.

Demograffeg Troseddwr/Person dan amheuaeth

Cafodd mwyafrif y troseddau a gyflawnwyd yn ystod cyfnod yr adolygiad eu cyflawni gan droseddwr unig. Adnabuwyd 54 troseddwr unigryw, ac o'r rhain roedd 96% yn wrywaidd. Roedd 83% o'r troseddwr yn byw yn ardal Heddlu Dyfed Powys, ac yn 57% o'r troseddau roedd y dioddefwr wedi adnabod y troseddwr dros gyfnod sylweddol o amser.

Yn 74% o'r troseddau, cychwynnwyd y cyswllt rhwng y troseddwr a'r dioddefwr wyneb yn wyneb ac yn 26% o'r troseddau, cychwynnwyd y cyswllt rhwng y troseddwr a'r dioddefwr ar-lein, naill ai drwy ffôn symudol neu gyfrifiadur.

Roedd y safleoedd a'r cymwysiadau a ddefnyddiwyd gan y troseddwr i gysylltu â dioddefwr yn cynnwys Facebook, Kik messenger, Blackberry messenger, Skype a negeseuon testun. Mae'r gwasanaethau negeseuon hyn yn caniatáu elfen o fod yn anhysbys. Yn aml, bydd dioddefwr, ar ôl gwneud y cyswllt cyntaf drwy Facebook, yn cael eu perswadio i gynnal sgwrs ar wasanaethau negeseuon di-oed, er enghraifft, SnapChat lle y gellir gwneud ceisiadau pellach a lle y caiff delweddau eu dileu'n awtomatig gan beri bod dim modd olrhain y delweddau.

Plant mewn perygl oddi wrth CRhB

Ym mis Mai 2015 roedd 129 o blant y gwyddai'r Heddlu eu bod mewn perygl o ddiodef camfanteisio rhywiol, gyda 63% wedi sgorio fel rhai oedd mewn perygl sylweddol o CRhB ar asesiad SERAF. Roedd mwyafrif (88%) y plant a nodwyd yn ferched a 66% rhwng 15 ac 16 mlwydd oed. Roedd 40% o'r plant oedd mewn perygl o CRhB yn blant oedd yn derbyn gofal.

Mae'r cysylltiadau rhwng CRhB a Phlant sydd ar Goll yn amlwg yn y proffil, gyda 72% o'r plant hynny oedd mewn perygl o CRhB yn rhai y bu sôn iddynt fynd ar goll ar ryw achlysur.

3. Plant mewn gofal a osodwyd gan Awdurdodau Lleol eraill.

Mae yna 25 o Gartrefi Plant ar hyn o bryd wedi eu cofrestru o fewn rhanbarth Dyfed Powys. Mae 12 ym Mhowys, 8 yn Sir Benfro a 5 yn Sir Gaerfyrddin gyda 0 yng Ngheredigion. Mae niferoedd sylweddol o blant sy'n derbyn gofal hefyd wedi eu gosod o fewn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru gan Awdurdodau Lleol eraill mewn lleoliadau asiantaethau maethu annibynnol, gyda'r holl Awdurdodau Lleol yn y rhanbarth yn dderbynwyr net. Mae'r broblem yn neilltuol o amlwg ym Mhowys, gydag oddeutu 62% o'r plant sydd wedi eu gosod gan awdurdodau lleol eraill wedi eu gosod gan awdurdodau cyfagos yn Lloegr.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y plant sy'n derbyn gofal (LAC) sydd wedi eu lletya o fewn pob awdurdod lleol, a'r niferoedd a osodwyd gan awdurdodau lleol eraill ar yr 31^{ain} o Fawrth 2015.

Awdurdod Lleol	LAC a osodwyd fesul ALI	LAC a osodwyd gan AauLI eraill	Cyfanswm	LAC a osodwyd gan AauLI eraill fel % o gyfanswm y LAC
Sir Gaerfyrddin	244	175	419	42%
Ceredigion	84	23	107	21%
Sir Benfro	118	59	177	33%
Powys	128	118	246	48%
Cyfanswm	574	375	949	40%

Er bod cyfrifoldeb rhianta corfforaethol am blentyn sy'n derbyn gofal yn aros gyda'r awdurdod sy'n gosod, mae'n ofynnol i'r awdurdod hwnnw hysbysu'r awdurdod sy'n derbyn pan fydd plentyn yn cael ei osod. Mae gwaith awdurdodau o hysbysu wedi gwella. Fodd bynnag, mae'n gyffredin i'r hysbysiad gymryd oddeutu mis i gael ei dderbyn, ac yn ystod y cyfnod hwn gallai'r plentyn fod mewn perygl sylweddol o CRhB, ac ni fyddai asiantaethau o fewn y rhanbarth yn gwybod amdano. Mewn rhai achosion, ni dderbynnir hysbysiad, yn enwedig lle mae plant yn cael eu gosod am asesiadau 28 diwrnod. Mae yna ddwy uned asesu breswyl wedi eu lleoli o fewn Powys, sy'n golygu bod poblogaeth newidiol iawn o blant mewn gofal yn y sir honno.

Yn rhai achosion, efallai y gosodir plentyn, sydd wedi ei adnabod fel un mewn perygl o CRhB, o fewn y rhanbarth gan awdurdod lleol arall oherwydd y canfyddiad y bydd y perygl yn llai mewn amgylchedd gwledig. Mae'n amlwg bod y rhyngrwyd yn rhoi mynediad i gyflawnwyr at ardal lawer ehangach ar gyfer meithrin perthynas na fyddai wedi bod yn bosibl gynt, ac mae angen codi ymwybyddiaeth yr awdurdodau sy'n gosod o natur y risgiau cyson, a'u hannog i rannu asesiadau a sicrhau cynlluniau rheoli risg.

Mae offeryn ar-lein i asesu risg ar gyfer cartrefi gofal preswyl yn cael ei ddefnyddio yn y rhanbarth. Mae sefydlu a datblygu defnydd yr offeryn asesu risg hwn ymhellach, gan gynnwys ymestyn ei ddefnydd i gynnwys lleoliadau maeth yn faes blaenoriaeth allweddol ar gyfer cydweithio.

4. Plant sy'n mynd ar goll

Mae cysylltiad clir rhwng digwyddiadau o fynd ar goll o'r cartref, ysgol neu ofal ar y naill law a chynnydd ar y llaw arall yn y perygl o CRhB, yn enwedig ar gyfer y plant hynny sy'n mynd ar goll o hyd, neu sy'n aros allan dros nos. Mae Protocol Cymru Gyfan – Plant ar Goll (2011) yn egluro'r prosesau penodol y dylid eu dilyn pan fydd plentyn yn mynd ar goll. Mae'r cyfweiliad ôl-drafod, a gynhelir pan fydd y plentyn yn dychwelyd, yn rhoi cyfle i archwilio'r posibilrwydd bod y plentyn efallai mewn perygl o CRhB.

Yn ystod blwyddyn galendr 2014, cofnododd Heddlu Dyfed Powys 1038 o adroddiadau am blant ar goll rhwng 0 a 17 mlwydd oed. Roedd 344 o'r rhain yn Sir Gaerfyrddin, 148 yng Ngheredigion, 259 yn Sir Benfro a 287 ym Mhowys.

O'r 1038 o adroddiadau, adroddwyd bod 520 o blant unigol wedi mynd ar goll: adroddwyd bod 365 o'r rheiny wedi mynd ar goll ar 1 achlysur yn unig; roedd 114 ar goll ar 2-4 achlysur; roedd 25 ar goll ar 5-7 achlysur a 16 ar goll ar wyth neu ragor o achlysuron.

Gan gydnabod pwysigrwydd sicrhau defnyddio dull cyson wrth gynnal cyfweiliadau ôl-drafod mae Heddlu Dyfed Powys yn comisiynu corff annibynnol i gynnal cyfweiliadau ôl-drafod gyda phlant. Cynhelir cyfweiliadau ôl-drafod o'r achlysur cyntaf o fynd ar goll a chaiff y perygl o CRhB ei ystyried yn ystod y cyfweiliad.

Bydd angen mynd i'r afael â pherygl CRhB hefyd ym mhob Cyfarfod Strategaeth Plant ar Goll a gynhelir ar ôl 3 neu 4 adroddiad gan yr heddlu am blentyn ar goll. Cynigir hefyd gan yr

Heddlu y dylid dadansoddi data plant ar goll ymhellach i geisio adnabod unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

5. Protocol Cymru Gyfan ar gyfer Diogelu a Hybu Lles Plant sydd mewn Perygl o Gamdriniaeth drwy Gamfanteisio Rhywiol.

Mae Protocol Cymru Gyfan ar gyfer Diogelu a Hybu Lles Plant sydd mewn Perygl o Gamdriniaeth drwy Gamfanteisio Rhywiol (AWCPPRG, 2013) yn cynnwys fframwaith ar gyfer adnabod risg, a adwaenir fel SERAF, fel y'i datblygwyd gan Barnardo's, ac mae'r protocol yn egluro'r prosesau y dylai asiantaethau eu dilyn i amddiffyn plant ac atal CRhB rhag digwydd, yn dibynnu ar lefel y risg a ganfuwyd. Mae'r protocol yn ei gwneud yn ofynnol cynnal cyfarfod strategaeth amlasiantaethol o fewn 8 diwrnod, pan ganfyddir bod plentyn mewn perygl canolig neu sylweddol o CRhB, gyda chyfarfod adolygu i gael ei gynnal o fewn 3 mis.

Mae'r angen i sefydlu a monitro proses y cyfarfod strategaeth CRhB ac adolygu yn gyson ar draws y rhanbarth wedi dod yn amlwg yn ystod datblygiad y strategaeth hon. Er mwyn gwerthuso cydymffurfriad, cynigir datblygu safonau sicrhau ansawdd allweddol, i gael eu monitro a'u trafod yn lleol ac yn rhanbarthol. Bydd CRhB yn eitem sefydlog ar agenda Bwrdd Gweithredol CYSUR, yr Is-grŵp Strategol a'r Grwpiau Gweithredu Lleol (GGLI). Mae datblygiad arfaethedig set ddata genedlaethol fel rhan o Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer CRhB i'w groesawu a bydd angen ei gynnwys.

Mae'r syniad o gyflwyno cyfarfod camfanteisio rhywiol misol (MASE) yn ardal pob awdurdod lleol dan ystyriaeth. Nid yw'r cyfarfod MASE yn disodli'r prosesau presennol ond yn ei gwneud yn bosibl olrhain cynnydd a rhannu cudd-wybodaeth er mwyn adnabod patrymau a thueddiadau. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y cyfarfod MASE yn y Cylch Gorchwyl ar gyfer cyfarfodydd MASE a gynhelir gan yr Heddlu Metropolitan, a geir yn Atodiad 4.

Rhaid cydnabod hefyd bwysigrwydd mesurau ataliol a chodi ymwybyddiaeth o CRhB ymhlith plant sy'n sgorio'n is ar SERAF, a rhaid datblygu llwybrau addas o gefnogaeth yn lleol o fewn y rhanbarth.

6. Cynllun Gweithredu Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Y Coleg Plismona Cenedlaethol 2014-16

Mae'r Coleg Plismona wedi cynhyrchu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol diwygiedig ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yng ngoleuni pryder sylweddol o'r newydd yn genedlaethol ymhlith y cyhoedd, y cyfryngau a gwleidyddion, yn dilyn cyhoeddi Ymchwiliad Annibynnol i Gamfanteisio Rhywiol ar Blant yn Rotherham 1997-2013 gan y Farwnes Margaret Alexis Jay OBE. Mae hefyd yn dilyn cyfres o argymhellion eraill yn tarddu o dreialon pwysig oedd yn cynnwys llaweroedd o diffynyddion a dioddefwyr agored i niwed a ddioddefodd gamdriniaeth rywiol ddifrifol a hirfaith ar draws y wlad. Nod cynllun gweithredu'r Coleg Plismona Cenedlaethol yw darparu ymateb cydlynol i CRhB ar draws Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon i gyd.

7 thema allweddol Cynllun Gweithredu CRhB y Coleg Plismona Cenedlaethol:

1. Hyder ac ymwybyddiaeth y cyhoedd
2. Amddiffyn, cefnogi, diogelu dioddefwyr a rheoli risg.
3. Ymchwiliadau effeithiol a dod â throeddwy'r o flaen eu gwell.
4. Paratoi, Atal, Amddiffyn, Erlid (4 P yn Saesneg)
5. Cudd-wybodaeth, casglu data a monitro perfformiad.
6. Arweinyddiaeth
7. Dysgu a datblygiad ar gyfer arweinwyr a staff y rheng flaen.

Paratoi, Atal, Amddiffyn, Erlid (4 P yn Saesneg)

PARATOI: Darparu arweinyddiaeth gref a systemau effeithiol tra'n gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â CRhB

ATAL: Codi ymwybyddiaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ymysg pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a chyflawnwyr posibl, er mwyn atal digwyddiadau/ail ddigwyddiadau o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant.

AMDDIFFYN: Amddiffyn pobl ifanc agored i niwed a chefnogi dioddefwyr a'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n ceisio lleihau'r achosion o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant.

ERLID: Amharu, arestio ac erlyn troeddwy'r sy'n Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, gan sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr bob amser.

Y canlyniadau a ddymunir, meini prawf ar gyfer llwyddiant a buddion

- Gwella'r gallu i fynd i'r afael â CRhB yn effeithiol mewn ffordd y gellir ei fesur;
- Cynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu diogelu;
- Cynnydd yn nifer y troeddwy'r sy'n cael eu dwyn i'r llys;
- Cynnydd yn effeithiolrwydd partneriaeth rhwng yr Heddlu a rhanddeiliaid allweddol;
- Nodi a lledaenu arfer gorau a dysgu;
- Cynnydd yn hyder y cyhoedd yng ngwasanaeth yr heddlu.

Fel cynllun gweithredu yr Heddlu, mae llawer o sylw'n cael ei roi o angenrheidrwydd i gamau penodol gan yr Heddlu. Fodd bynnag, mae yna rôl allweddol i'r holl randdeiliaid i weithio ar y cyd i gefnogi cyflawni'r cynllun gweithredu ar draws y rhanbarth.

7. Ymateb Heddlu Dyfed Powys

Mae adolygiad o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant o fewn y rhanbarth, Operation Celtic, yn cael ei gynnal gan Heddlu Dyfed Powys. Cafodd y meysydd canlynol eu hystyried dan gylch gorchwyl Operation Celtic:

- Adolygu digwyddiadau, cofnodi troseddau, cudd-wybodaeth a phrosesau briffio er mwyn sicrhau bod yr holl ddigwyddiadau a throseddau cysylltiedig â CRhB yn cael eu nodi a'u cofnodi'n briodol ac yn foesebol.
- Archwilio adroddiadau 'Ar Goll o'r Cartref' dros y chwe mis diwethaf pan adroddwyd bod plentyn dan 18 oed ar goll, er mwyn canfod a oes tystiolaeth / cudd-wybodaeth neu droseddu i awgrymu bod y plentyn yn dioddef neu wedi dioddef CRhB.
- Adolygu holl asesiadau risg SERAF (Ffurflen Asesu Risg Camfanteisio'n Rhywiol) ar blant y mae CRhB wedi effeithio arnynt ar draws ardal yr heddlu er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi'n gywir, o safon uchel ac wedi eu cofnodi'n briodol ar systemau'r heddlu.
- Adolygu'r plant sydd ar hyn o bryd ar y gofrestr 'Mewn Perygl' sy'n syrthio i mewn i gategori agored i niwed ar gyfer CRhB er mwyn sicrhau bod cynlluniau diogelwch priodol yn eu lle.
- Ymgysylltu ag arweinwyr cenedlaethol CRhB a chysylltu â POLKA gyda golwg ar ddod i wybod am unrhyw weithdrefnau neu fentrau lleol sy'n cael effaith gadarnhaol ac yn arddangos arfer da.
- Ymgysylltu â heddluoedd eraill i sefydlu arfer da o ran adnabod CRhB, a rheoli ail ddioddefwyr gan ganolbwyntio ar yr amrywiad yng nghyfraddau ail ddioddefwyr ar draws yr heddluoedd.

Mae canfyddiadau interim yr adolygiad hwn wedi hysbysu'r boblogaeth am y cynllun gweithredu cenedlaethol o fewn cyd-destun Dyfed Powys.

8. Argymhellion Penodol i Fyrddau Diogelu Plant

Wrth ystyried y materion a drafodwyd yn adroddiadau'r ymchwiliadau CRhB proffil uchel, mae'n amlwg bod nifer o argymhellion a wnaed, er eu bod yn gysylltiedig â methiannau penodol o fewn cyrff unigol, yn ymwneud â'r graddau y gall y Byrddau Diogelu Plant edrych ar bartneriaid fel 'sefydliadau diogel'. Mae enghreifftiau o argymhellion o'r fath yn codi o SCR Rhydychen, ynghylch yr angen i'r holl asiantaethau fedru dangos effeithiolrwydd goruchwyliaeth staff a pholisïau cyfeirio'n uwch. Mae aelodau grŵp gorchwyl a gorffen y strategaeth CRhB yn cynnig y dylai'r materion hyn gael eu monitro fel rhan o broses gyson Bwrdd CYSUR o ofyn am dystiolaeth a monitro'r dystiolaeth, er mwyn bodloni aelodau gweithredol fod sefydliadau sy'n bartneriaid yn wir yn 'sefydliadau diogel', er enghraifft, drwy broses archwilio SAIT neu S28.

Mae argymhellion o adroddiadau proffil uchel hefyd yn canolbwyntio i raddau helaeth ar yr angen am drefniadau gweithio effeithiol ar draws partneriaeth er mwyn sicrhau eglurder ynghylch atebolrwydd a threfniadau adrodd ar gyfer yr agenda diogelu plant ehangach. Mae'r mater hwn wedi cael ei nodi eisoes fel maes blaenoriaeth o fewn cynllun busnes cyfredol CYSUR.

Er mwyn sicrhau bod gan y staff yn yr holl asiantaethau ddealltwriaeth glir o'r materion ynghylch cydsyniad mae Protocol Cymru Gyfan yn datgan yn glir

Nid yw plant yn gwirfoddoli i rywun gamfanteisio'n rhywiol arnynt ac ni allant gydsynio i'w camdriniaeth eu hunain; maent yn cael eu gorfodi a/neu eu gwthio.

Mae argymhellion ynghylch troi gwersi a ddysgwyd, ynghyd â negeseuon gan ddioddefwyr a'u teuluoedd, yn elfen mewn hyfforddiant yn derbyn sylw fel rhan o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar gynllun datblygu gweithlu amlasiantaethol, rhanbarthol ar gyfer diogelu, fydd yn cynnwys datblygu mecanwaith i adrodd am bwyntiau dysgu wrth aelodau Bwrdd Gweithredol CYSUR.

Efallai y bydd angen i'r Grŵp Gweithrediadau Lleol o fewn rhanbarth CYSUR ystyried ymhellach sut i fynd i'r afael â'r materion canlynol y tynnwyd sylw atynt yn adroddiadau ymchwiliadau;

- trosglwyddo gwybodaeth rhwng ysgolion a phenderfyniadau ynghylch gwaharddiadau;
- y broses ar gyfer archwiliadau amlasiantaethol o achosion CRhB;
- sicrhau mynediad priodol at yr ystod angenrheidiol o leoliadau Plant sy'n Derbyn Gofal.

9. Meysydd blaenoriaeth ar gyfer cydweithio

Mae gan bob asiantaeth sy'n bartner rôl i'w chwarae mewn lleihau'r niwed a achosir gan Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant.

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Datblygu Strategaeth CRhB CYSUR wedi nodi'r meysydd blaenoriaeth a'r canlyniadau allweddol canlynol ar gyfer gweithio ar y cyd

Codi Ymwybyddiaeth

- Codi ymwybyddiaeth o CRhB ymhlith staff rheng flaen yn yr holl asiantaethau
- Codi ymwybyddiaeth o CRhB gyda phlant a phobl ifanc a'u rhieni a'u gofalwyr.
- Mabwysiadu dull wedi ei dargedu o godi ymwybyddiaeth o CRhB gyda grwpiau penodol o fewn y gymuned ehangach, mewn ymateb i'r themâu a'r tueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Canfod risg, asesu risg a rheoli achosion

- Sicrhau bod prosesau effeithiol yn eu lle i adnabod plant sydd mewn perygl o CRhB
- Sicrhau ffordd gyson o ymateb i blant sydd wedi mynd ar goll
- Sicrhau cydymffurfio'n gyson â Phrotocol CRhB Cymru Gyfan yn enwedig mewn perthynas â phroses asesu ac adolygu SERAF
- Sicrhau bod yna brosesau effeithiol yn eu lle i gynorthwyo i adnabod ac amharu ar gyflawnwyr.

Plant mewn gofal a osodwyd gan Awdurdodau Lleol eraill.

- Ceisio sicrhau bod yr asiantaethau perthnasol yn gwybod am blant sydd wedi eu gosod o fewn y rhanbarth gan awdurdodau eraill a bod asesiadau risg yn cael eu rhannu.
- Datblygu memorandwm o ddealltwriaeth gyda'r Awdurdodau Lleol a darparwyr preifat mewn perthynas ag offeryn asesu risg ar-lein Dyfed Powys ar gyfer cartrefi gofal preswyl.
- Edrych i mewn i'r posibilrwydd o ymestyn yr offeryn asesu risg ar-lein i gynnwys lleoliadau maeth.

Gwasanaethau cefnogi ac adfer

- Sicrhau bod plant y mae CRhB wedi effeithio arnynt neu mewn perygl o effeithio arnynt yn cael cynnig lefel briodol o wasanaethau ataliol, cymorth ac adferiad, a bod llwybrau clir yn eu lle i gael mynediad at wasanaethau ar gyfer pob lefel o risg.

Atodiad 1 Cynllun Gweithredu ar gyfer cyflawni mewn meysydd ar gyfer gweithio ar y cyd.

Bwriedir i'r cynllun gweithredu fod yn ddogfen fyw, gan esblygu mewn ymateb i ddiweddariadau ar gynnydd a roddir gan arweinyddyr asiantaethau yn chwarterol.

Meysydd blaenoriaeth ar gyfer cydweithio	Camau a gynigir a chanlyniadau	Arweinyddyr Asiantaethau	Amserlen	Cynnydd / statws
1. Codi Ymwybyddiaeth				
<p>1.1 Codi ymwybyddiaeth o CRhB a chynyddu gwybodaeth am fesurau atal ac amddiffyn ymhlith staff rheng flaen a rheolwyr ym mhob asiantaeth, gan gynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaethau Plant • Addysg • Iechyd • Yr Heddlu • Gwasanaeth Prawf • Canolfan Atgyfeirio Plant • Timau Troseddau Ieuenctid • Asiantaethau Camddefnyddio Sylweddau • Tai • Gwasanaethau Ieuenctid 	<p><u>Hyfforddiant</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Aelodau'r Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol i sicrhau bod y cynllun datblygu gweithlu diogelu yn cynnwys hyfforddiant SERAF arbenigol ar CRhB amlasiantaethol a chyrsgiau ymwybyddiaeth sylfaenol yn y rhaglen a ddarperir. • Cyrsgiau hyfforddi Amddiffyn Plant un asiantaeth ac amlasiantaethol, lefel 1 a 2, i gynnwys gwybodaeth am CRhB a SERAF ac ymarferion codi ymwybyddiaeth sylfaenol o CRhB. <p><u>Cylchredeg Deunyddiau Codi Ymwybyddiaeth</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cais i'w wneud i Barnardo's am gyfarwyddyd ynghylch adnoddau / deunyddiau gwybodaeth dwyieithog sydd ar gael i'w defnyddio mewn gwaith i godi ymwybyddiaeth ynghylch CRhB gyda staff a gwirfoddolwyr yr holl asiantaethau. • Pob asiantaeth sy'n aelod o CYSUR i enwebu person cyswllt i goladu a lledaenu gwybodaeth ynghylch CRhB o fewn eu sefydliad ac mewn 	<p>Cadeirydd, Is- grŵp Hyfforddi</p> <p>Arweinyddyr Hyfforddi Asiantaethau</p> <p>Rheolwr CYSUR</p> <p>Bwrdd Gweithredol CYSUR</p>	<p>O Fehefin 2015</p> <p>O Fehefin 2015</p> <p>O Fehefin 2015</p> <p>Medi 2015</p>	

Meysydd blaenoriaeth ar gyfer cydweithio	Camau a gynigir a chanlyniadau	Arweinwyr Asiantaethau	Amserlen	Cynnydd / statws
<ul style="list-style-type: none"> Gofal Cymdeithasol Oedolion Y trydydd sector 	<p>cymunedau lleol ar gyfer ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gweithredu a monitro rhaglen o gylchredeg a defnyddio deunyddiau gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ledled y rhanbarth ar gyfer grwpiau wedi eu targedu yn y gymuned, defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol a nodwyd yn lleol. <p><u>Cynhadledd CRhB Ranbarthol</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Ceisio cytundeb gan Fwrdd Gweithredol CYSUR am gyllideb i drefnu cynhadledd ranbarthol a Threfnu cynhadledd CRhB ranbarthol i gyflwyno a hybu ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth ar gyfer staff rheng flaen a rheolwyr a gofalwyr ar draws yr holl asiantaethau; rhoddir blaenoriaeth i rai grwpiau targed. 	<p>Cadeiryddion GGLI</p> <p>Aelodau Bwrdd Gweithredol CYSUR / Grŵp Gorchwyl a Gorffen CRhB</p> <p>Grŵp gorchwyl a gorffen CRhB</p>	<p>O fis Medi 2015</p> <p>Mehfin 2015</p> <p>I'w chynnal ym mis Mawrth 2016</p>	
<p>1.2 Codi ymwybyddiaeth o beryglon CRhB a mesurau amddiffyn ac atal gyda phlant a phobl ifanc a'u rhieni a'u gofalwyr.</p>	<p><u>Deunyddiau codi ymwybyddiaeth</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Cais i'w wneud i Barnardo's am gyfarwyddyd ynghylch adnoddau / deunyddiau dwyieithog sydd ar gael i'w dosbarthu gan asiantaethau ymhlith pobl ifanc a rhieni a gofalwyr y maent yn gweithio gyda hwy yn y gymuned. 	<p>Rheolwr CYSUR</p>	<p>Mehfin 2015</p>	

Meysydd blaenoriaeth ar gyfer cydweithio	Camau a gynigir a chanlyniadau	Arweinwyr Asiantaethau	Amserlen	Cynnydd / statws
	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau Diogelu Plant Lleol a Rhanbarthol i nodi ffyrdd o godi ymwybyddiaeth o beryglon CRhB ymhlith plant a phobl ifanc a mesurau cadw'n ddiogel. • Sesiynau ymwybyddiaeth o CRhB i gael eu cynnal mewn ysgolion i ddisgyblon ac i'w cynnwys mewn sesiynau ABCh. • Nodi rhwydwaith o sefydliadau sy'n bresennol ar y cyfryngau cymdeithasol i'w gwneud yn bosibl cysylltu ag ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd ynghylch CRhB ar y cyfryngau cymdeithasol. 	<p>Rheolwyr Diogelu Gwasanaethau Plant mewn trafodaeth gyda Gwasanaeth Eiriol Tros Gynnal</p> <p>Arweinwyr Diogelu mewn Addysg</p> <p>Grŵp gorchwyl a gorffen CRhB Swyddfa'r Wasg yr Heddlu</p>	<p>O Fehefin 2015</p> <p>Mawrth 2016 yn unol ag ymgyrchoedd cenedlaethol</p> <p>Medi 2015</p>	
<p>1.3 Mabwysiadu dull wedi ei dargedu o godi ymwybyddiaeth o CRhB gyda grwpiau penodol o fewn y gymuned ehangach mewn ymateb i'r themâu a'r tueddiadau sy'n dod i'r amlwg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi grwpiau cymunedol penodol i'w targedu ar gyfer mentrau codi ymwybyddiaeth yn gysylltiedig â phroffil demograffeg a phroblemau lleol. • Monitro effaith gweithgaredd codi ymwybyddiaeth 	<p>Cadeiryddion GGLI</p> <p>Cadeiryddion GGLI</p>	<p>O fis Medi 2015</p>	

Meysydd blaenoriaeth ar gyfer cydweithio	Camau a gynigir a chanlyniadau	Arweinwyr Asiantaethau	Amserlen	Cynnydd / statws
2. Adnabod, Aseu Risg a Rheoli Achosion				
2.1 Sicrhau bod prosesau effeithiol yn eu lle i adnabod plant sydd mewn perygl o CRhB	<u>Rhannu Gwybodaeth</u> <ul style="list-style-type: none"> • Asiantaethau i nodi pa ddata a gwybodaeth sydd ganddynt ar hyn o bryd ac adrodd a / neu goladu ac adrodd mewn perthynas â ffurflenni SERAF ac achosion o CRhB. • Cryfhau trefniadau rhannu gwybodaeth er mwyn hwyluso croes-wirio data / gwybodaeth am achosion sy'n cael ei chadw gan asiantaethau drwy ddatblygu protocol rhanbarthol ynghylch rhannu gwybodaeth CRhB / SERAF. • Pob GGLI i ystyried cynnal peilot o gyfarfod camfanteisio'n rhywiol ar blant amlasiantaethol, misol (MASE), a llunio rhestr o gyfarfodydd Strategaeth CRhB. 	<p>Cadeiryddion GGLI ac arweinyddion asiantaethau</p> <p>Arweinydd CRhB Heddlu Dyfed Powys</p> <p>Cadeiryddion GGLI</p>	<p>O Fehefin 2015</p> <p>Medi 2015</p> <p>Medi 2015</p>	

Meysydd blaenoriaeth ar gyfer cydweithio	Camau a gynigir a chanlyniadau	Arweinwyr Asiantaethau	Amserlen	Cynnydd / statws
	<p><u>Ymateb i adroddiadau am blant ar goll</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfweiliadau ôl-drafod i gael eu cynnal gan weithwyr annibynnol fel y trefnir gan yr Heddlu o'r digwyddiad cyntaf o fod ar goll. • Cyfweiliadau ôl-drafod i gynnwys ystyriaeth o risg o CRhB. • Risg o CRhB i gael ei hystyried ym mhob cyfarfod strategaeth plant ar goll a'r ffurflenni SERAF a gwblhawyd ar gyfer pob plentyn / person ifanc. • Cytuno ar drefniadau i ddadansoddi data plant ar goll ar lefel leol a rhanbarthol er mwyn nodi unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg. 	<p>Arweinydd CRhB yr Heddlu</p> <p>Rheolwyr Diogelu</p> <p>Gwasanaethau Plant</p> <p>Cadeiryddion GGLI</p>	<p>O fis Medi 2015</p> <p>O fis Medi 2015</p>	

Meysydd blaenoriaeth ar gyfer cydweithio	Camau a gynigir a chanlyniadau	Arweinwyr Asiantaethau	Amserlen	Cynnydd / statws
<p>2.2 Sicrhau cydymffurfio'n gyson â Phrotocol CRhB Cymru Gyfan yn enwedig mewn perthynas â phroses asesu, cynllunio diogelwch ac adolygu SERAF</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Annog ymarferwyr rheng flaen i ddefnyddio gwasanaeth SERAF Barnardo's Cymru am gyngor arbenigol ar ôl cwblhau SERAF. • Set ddata adrodd CYSUR a safonau sicrhau ansawdd ar CRhB i gael eu cytuno ar sail gofynion setiau data cenedlaethol. Ar ôl cytuno eu cynnwys mewn adroddiad chwarterol i holl grwpiau CYSUR. Set ddata i gynnwys y canlynol <ul style="list-style-type: none"> ○ Nifer y ffurflenni SERAF a gwblhawyd ○ Categorioidio risg ○ Cyfarfodydd Strategaeth a gynhaliwyd ○ Cyfarfodydd adolygu a gynhaliwyd • Bydd CRhB yn eitem sefydlog ar agenda Bwrdd Gweithredol CYSUR, yr Is-grŵp Strategol a'r Grwpiau Gweithredu Lleol. • Camau gweithredu lleol i gael eu cytuno i symud y strategaeth ymlaen 	<p>Rheolwyr Diogelu Gwasanaethau Plant a gwasanaeth SERAF</p> <p>Cylch gorchwyl a gorffen CRhB</p> <p>Rheolwr CYSUR</p> <p>Cadeiryddion GGLI</p>	<p>Rhagfyr 2015</p> <p>Medi 2015</p> <p>Medi 2015</p> <p>Medi 2015</p>	

Meysydd blaenoriaeth ar gyfer cydweithio	Camau a gynigir a chanlyniadau	Arweinwyr Asiantaethau	Amserlen	Cynnydd / statws
2.3 Sicrhau bod yna brosesau effeithiol yn eu lle i gynorthwyo i adnabod a tharfu ar gyflawnwyr.	<ul style="list-style-type: none"> Defnyddio cyfarfodydd MASE neu fecanweithiau eraill a gytunwyd yn lleol i rannu gwybodaeth berthnasol rhwng partneriaid amlasiantaethol i gynnwys Gwasanaeth Troseddau Ieuencid, y Gwasanaeth Prawf, CRC ac Adrannau Trwyddedu Awdurdodau Lleol a'r Heddlu. 	Cadeiryddion GGLI	Medi 2015	
3. Plant mewn gofal a osodwyd yn y rhanbarth gan awdurdodau eraill.				
Ceisio sicrhau bod yr asiantaethau perthnasol yn ymwybodol o blant sydd mewn perygl o CRhB sydd wedi eu gosod o fewn y rhanbarth gan awdurdodau eraill a bod asesiadau risg yn cael eu rhannu.	<p><u>Codi Ymwybyddiaeth</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Codi ymwybyddiaeth yn y rhanbarth, drwy gyfrwng cyfleoedd hyfforddi a chylchredeg gwybodaeth gyda darparwyr lleoliadau / awdurdodau sy'n gosod, o offeryn asesu risg lleoliadau preswyl LAC ar-lein, a bod pryderon CRhB yn aml yn parhau ar ôl symud ardal, a gofynion protocol CRhB Cymru Gyfan. Rhoi prawf ar gydymffurfio â'r defnydd o offeryn asesu risg gofal preswyl LAC yr Heddlu drwy groesgyfeirio â gwybodaeth a gedwir gan lechyd. 	Cadeiryddion GGLI Nyrs LAC / Arweinyddion lechyd ac Arweinydd CRhB yr Heddlu	Rhagfyr 2015 Parhaus o Fedi 2015	

Meysydd blaenoriaeth ar gyfer cydweithio	Camau a gynigir a chanlyniadau	Arweinwyr Asiantaethau	Amserlen	Cynnydd / statws
	<p><u>Offeryn asesu risg ar-lein</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu memorandwm o ddealltwriaeth rhwng Awdurdodau Lleol a darparwyr preifat yn y rhanbarth mewn perthynas â chydymffurfio ag offeryn asesu risg ar-lein Heddlu Dyfed Powys ar gyfer cartrefi gofal preswyl. • Datblygu'r potensial i ymestyn yr offeryn asesu risg lleoliadau preswyl LAC i gynnwys lleoliadau maeth, gan gysylltu â'r 4 C a'r Rhwydwaith Maethu 	<p>Is- grŵp Strategol CYSUR</p> <p>Is- grŵp Strategol CYSUR</p>	<p>Mawrth 2016</p>	
4. Ystod o Wasanaethau Cefnogi ac Adfer				
<p>4.1 Sicrhau bod plant y mae CRhB wedi effeithio arnynt, neu sydd mewn perygl i CRhB effeithio arnynt yn cael cynnig lefel briodol o amddiffyniad, cymorth ataliol a gwasanaethau adfer.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mapio'r gwasanaethau ataliol ac amddiffyn sydd ar gael mewn perthynas â'r risgiau o CRhB a phryderon ynghylch plant, pobl ifanc a theuluoedd ym mhob ardal ar draws y rhanbarth. • Sicrhau bod asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n ddiodefwrwr neu sydd mewn perygl o CRhB yn gwybod am yr amrywiaeth o wasanaethau yn eu hardal. • Sicrhau bod yna lwybrau clir at wasanaeth i amddiffyn ac atal ar gyfer pob lefel o risg a ganfuwyd yn ffurflenni SERAF. 	<p>Rheolwr Busnes</p> <p>Cadeiryddion GGLI</p> <p>Aelodau Gweithredu CYSUR</p>	<p>Rhagfyr 2015</p> <p>Mawrth 2016</p>	

Atodiad 1 Dogfennau cyfeirio

Protocol Cymru Gyfan ar gyfer Diogelu a Hybu Lles Plant sydd mewn Perygl o Gamdriniaeth drwy Gamfanteisio Rhywiol (AWCPPRG, 2013), ar gael yn

<http://www.awcpp.org.uk/wp-content/uploads/2014/03/CSE-Protocol-Review-FINAL-REVISION-October-2013.pdf>

Diogelu Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol. Canllawiau ychwanegol ar ddiogelu plant: Gweithio gyda'n gilydd dan Ddeddf Plant 2004 (LICC 2010) ar gael yn

<http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/guidance1/exploitation/?lang=en>

Child Sexual Exploitation: Problems and Solutions from the perspectives of young people and professionals. Dr Sophie Hallet, Cascade Research Briefing Number 3: Mawrth 2015, ar gael yn

<http://sites.cardiff.ac.uk/cascade/files/2014/10/Briefing-3.pdf>

Serious Case review into child sexual Exploitation in Oxfordshire: from the experiences of Children A,B,C,D,E and F

Child Sexual Exploitation in Oxfordshire: Agency Responses since 2011

Serious Case Review: Children A,B,C,D,E,F. Oxfordshire Safeguarding Children Board (OSCB) Recommendations and planned actions to continue improvement

(all, Oxfordshire Safeguarding Children Board, February 2015, available at <http://www.oscb.org.uk/2015/03/serious-case-review-published/>)

Tackling Child Sexual Exploitation, A resource pack for councils, Local Government Association, Rhagfyr 2014 ar gael yn

<http://www.local.gov.uk/documents/10180/6869714/Tackling+Child+Sexual+Exploitation+Resource+for+Councils+20+01+2015.pdf/336aee0a-22fc-4a88-bd92-b26a6118241c>

Guidance for local safeguarding children boards on child sexual exploitation, ar gael yn

http://www.lscbchairs.org.uk/sitedata/files/CSE_Guidance_LSCBs.pdf

Prifysgol Swydd Bedford 'Self Assessment tool' to assess progress in protecting children from sexual exploitation, ar gael yn

http://www.beds.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0007/152179/Self-assessment-tool.pdf

Atodiad 2

Diffiniad Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO)

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant a phobl ifanc dan 18 mlwydd oed yn golygu sefyllfaoedd, cyd-destunau a pherthnasoedd o gamfanteisio lle mae'r person ifanc (neu'r trydydd person/au) yn derbyn 'rhywbeth' (e.e. bwyd, llety, cyffuriau, alcohol, sigarennau, serch, anrhegion, arian) o ganlyniad i berfformio gweithgareddau rhywiol, a/neu rywun neu rywrai eraill yn eu perfformio arnynt hwy.

Gall camfanteisio'n rhywiol ar blant ddigwydd drwy ddefnyddio technoleg heb i'r plentyn sylweddoli ar unwaith; er enghraifft cael ei b/pwerswadio i osod lluniau ar y rhyngwyd/ffôn symudol heb ennill na chael tâl ar unwaith.

Mae trais, gorfodaeth a chodi ofn yn gyffredin. Mae bod â rhan mewn perthnasoedd camfanteisiol yn cael ei nodweddu gan brinder dewis y plentyn neu'r person ifanc, o ganlyniad i'r ffaith ei f/bod yn agored i niwed yn gymdeithasol, yn economaidd neu'n emosiynol.

Un nodwedd gyffredin o gamfanteisio rhywiol ar blant yw nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn sylweddoli natur orfodol y berthynas nac yn gweld ei hun fel rywun sy'n dioddef camfanteisio.

Atodiad 3 Cylch Gorchwyl enghreifftiol ar gyfer cyfarfod MASE

Beth yw Cyfarfod MASE (Cyfarfod Camfanteisio Rhywiol Amlasiantaethol)?

Nid yw cyfarfod MASE yn cymryd lle nac yn disodli unrhyw bolisi neu weithdrefn gyfredol mewn perthynas â diogelu ac nid yw ar ei ben ei hun yn mynd i'r afael â chamfanteisio ar blant a dylid ei ddilyn ochr yn ochr â gweithdrefnau diogelu cyfredol.

Ni ddylai yr un asiantaeth oedi gweithredu ar atgyfeiriadau tra'n disgwyl am drafodaeth yn y cyfarfod MASE nesaf. Dylai gweithredu i amddiffyn plant rhag CRhB fod yn flaenoriaeth i'r holl asiantaethau ac mae'r cyfarfod MASE yn gweithredu fel proses i sicrhau bod gweithgaredd yn digwydd ac yn cael ei gyd-drefnu.

Mae cyfarfod misol MASE yn rhoi'r fframwaith i'w gwneud yn bosibl rhannu gwybodaeth yn rheolaidd a chynllunio i weithredu i fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae'r cyfarfod yn trafod atgyfeiriadau sy'n destun pryder, sydd wedi cael eu derbyn gan yr asiantaethau yn y cyfarfod. Efallai y gofynnir i asiantaethau, nad ydynt wedi eu cynrychioli yn y cyfarfod, gyflwyno gwybodaeth i gyfarfod MASE mewn achosion perthnasol.

Yn achos pob atgyfeiriad a drafodir yn y cyfarfod bydd y Cadeirydd yn gwirio cynnydd ac yn sicrhau bod cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu (o leiaf yn ymddrin â'r pwyntiau sydd wedi eu hatodi yn atodiad A). Caiff y wybodaeth a rennir yn y cyfarfod ei recordio ar systemau'r heddlu a hefyd ar systemau'r gwasanaeth cymdeithasol os bydd yr achos yn agored iddynt. Bydd hyn yn galluogi dadansoddwyr i nodi themâu, patrymau a thueddiadau sy'n codi o gyfarfodydd MASE mewn perthynas â CRhB. Gall hyn gynnwys adnabod cyflawnwyr cyfresol a gweithgaredd gangiau/grwpiau neu adeiladau/lleoliadau cysylltiedig â CRhB. Deuir â'r dadansoddiad a ddatblygwyd o ganlyniad i hyn yn ôl i gyfarfodydd dilynol a datblygir cynlluniau gweithredu.

Llywodraethu Cyfarfod MASE

Dylai cyfarfod MASE gael ei gadeirio gan swyddog heddlu'r fwrdeistref leol mewn swydd heb fod yn is nag Arolygydd. Efallai y ceir cytundeb yn lleol i'r cyfarfod gael ei gadeirio ar y cyd gan reolwr o'r Gwasanaethau Plant Lleol. Dylai cynrychiolydd yr Heddlu, fodd bynnag, fod yn swyddog ar lefel uchel bob amser (Ditectif Arolygydd /Ditectif Brif Arolygydd). Dylai'r cyfarfod MASE adrodd wrth is-grŵp y Bwrdd Diogelu Plant Lleol (BDPLI) neu, lle nad oes un wedi ei sefydlu, yn uniongyrchol i'r BDPLI.

Dylai cyfarfod MASE roi gwybodaeth am y canlynol i'r (Is-grŵp) BDPLI:

- Nifer yr achosion.
- Y cymunedau yr effeithiwyd arnynt, er mwyn gallu codi ymwybyddiaeth a defnyddio ymyriad wedi ei dargedu.

- Patrymau o CRhB a ganfuwyd.
- Gweithgaredd yn erbyn cyflawnwyr.
- Perfformiad asiantaethau unigol.
- Nifer a mathau o amhariadau, e.e. gorchmynion sifil, cyhuddo troseddwyr, cau safleoedd ac yn y blaen.

Nodau Cyfarfodydd MASE

Rhaid peidio â defnyddio cyfarfod MASE i gyfeirio achosion am y tro cyntaf. Dylai asiantaethau ddilyn llwybrau cyfeirio sefydledig bob amser ar gyfer achosion o CRhB.

Dylai'r achosion sydd i gael eu trafod felly gael eu cylchredeg ymlaen llaw i'r rheiny fydd yn bresennol yn y cyfarfod; dylai pawb sy'n bresennol fod yn gwbl barod i drafod achosion o safbwynt eu hasiantaeth. Dylai fod ganddynt wybodaeth lawn am yr achosion.

Ni ddylai cyfarfod MASE gynnwys trafodaethau rheoli achos llawn ynghylch yr achosion a fydd gerbron y cyfarfod; cyfarfodydd Strategaeth neu MAP yw'r lle y dylid cynnal y trafodaethau hynny. Dylai'r trafodaethau ar bob achos yng nghyfarfodydd MASE ganolbwyntio ar y canlynol:

- Mae pob gallu a dewis posibl yn cael ei ddefnyddio i amddiffyn y dioddefwr ac amharu ar y cyflawnwr/wyr (gweler y rhestr wirio ar ddiwedd y ddogfen hon).
- Mae'r holl asiantaethau yn cydweithredu.
- Mae'r holl asiantaethau wedi cofnodi manylion perthnasol yr achos ar eu systemau er mwyn sicrhau bod eraill yn cael mynediad at y wybodaeth.
- Mae unrhyw gamau a gymerir i gael eu cyd-drefnu â phrosesau eraill megis MARAC a MAPPA.
- Nodir cysylltiadau / patrymau gydag unrhyw achosion/lleoliadau/canolfannau.
- Uwchlaw popeth arall, mae asiantaethau'n cydweithio i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r rheiny y mae CRhB wedi effeithio arnynt.

Os oes yna systemau graddio yn cael eu defnyddio, mae'n bwysig nad yw'r achosion sy'n cael eu hystyried yn risg isel yn cael eu colli gan y cyfarfod. Bu'n aml yn wir bod y rheiny a ystyrid yn risg isel ar y dechrau, yn troi allan i fod yn gysylltiedig ag achosion / lleoliadau eraill a'u bod yn achosi llawer mwy o bryder nag y meddylid ar y cychwyn.

Mae'n bwysig cadw cofnod o unrhyw benderfyniadau a wnaed a bod y rhain yn cael eu cofnodi ar system berthnasol pob asiantaeth.

Agenda a awgrymir ar gyfer MASE

Mae'n bwysig cychwyn cyfarfod MASE gyda gwiriad o sawl atgyfeiriad y mae pob asiantaeth wedi ei dderbyn ers y cyfarfod diwethaf. Dylai nifer yr achosion sydd gan yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol fod yr un faint, ac os nad ydynt efallai fod yna broblem gydag arferion cofnodi.

Bydd agenda nodweddiadol ar gyfer cyfarfod MASE yn cynnwys;

- **Sicrhau ansawdd cydymffurfio** fel uchod. Ydy'r holl asiantaethau wedi cofnodi ac yn ymwybodol o'r atgyfeiriadau?
- **Achosion newydd** - crynodeb o'r wybodaeth, yr asiantaethau dan sylw, rheolaeth arfaethedig yr achos neu'r hyn a nodwyd.
- **Adolygu achosion** - cynnydd achos ac unrhyw broblemau mewn perthynas â hyn, h.y. asiantaethau nad ydynt yn cymryd rhan yn rheolaeth yr achos. Materion strategol mewn perthynas ag adnoddau ac yn y blaen. (Nid trafodaeth rheoli achos mo hon ac ni ddylai fod yn ddim mwy na diweddariad gan yr asiantaeth arweiniol a chydymffurfiad yng ngoleuni'r dewisiadau tactegol, allweddol sydd ar gael).
- **Plant sy'n byw y tu allan i'r fwrdeistref** - gwybodaeth drwy gysylltiad â'r ardal leol, adolygu'r peryglon a nodwyd.
- **Materion trawsffiniol** - problemau adnabod tueddiadau, adolygu cyswllt / gweithio cydgysylltiedig gyda bwrdeistrefi cyfagos.
- **Cyflawnwyr a adnabuwyd** - sicrhau bod yr holl fesurau rheoli/amharu wedi eu cymryd a bod cyflawnwyr yn cael mynediad at raglenni cymorth.
- **Lleoliadau a thueddiadau sy'n broblem** - materion a nodwyd o broffil problemau, cynnydd yn erbyn y problemau a ganfuwyd. Nodi asiantaethau / adrannau eraill y bydd angen iddynt efallai gymryd rhan.

Swyddogaeth y Cadeirydd ym mhob cyfarfod fydd sicrhau bod

- Pob asiantaeth yn cael ei chynrychioli ar y lefel briodol ac os nad yw, adrodd yn ôl i'r BDPLI.
- Bod cyfle yn cael ei roi i bob aelod gyfrannu i'r cyfarfod.
- Bod y wybodaeth a rennir yn cael ei rhannu yn unol â'r arweiniad cyfredol ac yn cael ei chofnodi'n gywir ar system pob asiantaeth.
- Bod camau gweithredu yn cael eu coladu a'u trafod.
- Sicrhau bod y cyfarfod yn cael ei gynnal ar y lefel briodol ac yn canolbwyntio ar gyrraedd y nodau o fewn y ddogfen hon.

Aelodaeth y Cyfarfod MASE

Dylai aelodaeth statudol gynnwys:

- Yr Heddlu
- Gofal Cymdeithasol Plant
- Iechyd
- Cynrychiolydd Addysg
- Asiantaethau sy'n cael eu contractio gan y fwrdeistref i gefnogi dioddefwyr CRhB.
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid

Anogir amrywiaeth o asiantaethau eraill i fynychu. Mae hyn yn hanfodol pan fydd gan eu hasiantaeth wybodaeth a all fod yn berthnasol i'r cyfarfod. Gallai'r rhain gynnwys:

- Swyddogion Tai
- Swyddogion Prawf
- Darparwyr gofal Iechyd Meddwl
- Timau cyffuriau / alcohol.
- Elusennau/gwasanaethau cefnogi eraill sy'n gweithio yn y fwrdeistref ond heb eu contractio.
- Darparwyr cartrefi gofal. Mae hyn yn cynnwys darparwyr statudol ac anstatudol.
- Rheolwyr Diogelwch Cymunedol
- Cynrychiolwyr o'r gymuned fusnes lle mae lleoliad sy'n broblem wedi ei nodi.

Cyngor ynghylch offerynnau asesu risg.

Nid yw'r ddogfen hon yn rhoi cyngor ac arweiniad ynglŷn ag offerynnau asesu risg. Bydd gan fwrdeistrefi, yn enwedig y rheiny â niferoedd uchel o blant mewn perygl o CRhB, eu hofferynnau eu hunain i adnabod y rheiny sydd yn y perygl mwyaf, y gellir targedu gwasanaethau tuag atynt.

Oherwydd y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig a natur guddiedig CRhB, rhaid cymryd gofal wrth ddefnyddio offerynnau asesu risg mewn perthynas ag atgyfeiriadau drwy'r cyfarfod MASE. Mae'n bwysig bod gwybodaeth yn cael ei rhannu ar ryw lefel ar yr holl achosion fel y gellir gwneud cysylltiadau yn y dyfodol a chadw golwg ar risg.

Dewisiadau tactegol i'w hystyried gan Banel MASE

Y rhwystr mwyaf ar ffordd llwyddiant Ymchwiliadau CRhB yw diffyg ymgysylltiad y dioddefwr. O ganlyniad dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pob dioddefwr posibl yn cael cysylltiad â Swyddogion sydd wedi eu hyfforddi mewn Diogelu Plant. Dylid egluro'r amrediad llawn o fesurau arbennig a gwneud pob ymdrech i gael y dioddefwr i ymgysylltu â'r Ymchwiliad. Pan fydd dioddefwr yn dewis gwneud cwyn, dylid ystyried defnyddio canolwr yn ystod y cyfweiliad fideo fydd yn dilyn.

Gwybodaeth a thynnu sylw - Un o brif swyddogaethau'r Cyfarfod MASE yw sicrhau bod cudd wybodaeth/gwybodaeth yn cael ei choladu ynghylch CRhB. Mae'n bwysig bod atgyfeiriadau yn cael eu cofnodi gan bob asiantaeth ar ei system berthnasol ac unrhyw gudd-wybodaeth a gyflwynir yn cael ei chategoreiddio fel un gysylltiedig â CRhB.

Mae yna nifer o weithgareddau i amharu ac atal, y dylid eu hystyried ar gyfer pob plentyn sydd mewn perygl o gamfantais. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Ydy'r plentyn/dioddefwr wedi cael adroddiad Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) yn dangos ei fod mewn perygl?
2. Ydy'r cyflawnwr dan amheuaeth wedi cael adroddiad Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) yn dangos ei fod yn achosi perygl?
3. Ydy hysbysiadau rhybuddio ynghylch cipio wedi cael eu hystyried ac os felly eu rhoi/cofnodi a phawb wedi cael gwybod amdanynt?
4. Pwy yw'r asiantaeth/unigolyn arweiniol sy'n gyfrifol am ôl-drafod gyda'r plentyn yn dilyn digwyddiadau o fynd ar goll; a yw hyn yn cael ei wneud ac a yw'r wybodaeth yn cael ei rhannu?
5. Oes yna strategaeth fforensig yn ei lle o gwmpas y plentyn/dioddefwr, h.y. a fu yna drafodaeth ynghylch adfer dillad y plentyn yn dilyn cyfnodau o fod ar goll neu gyswllt â chyflawnwyr a amheuir?
6. Oes gorchmynion sifil wedi cael eu hystyried, e.e. Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol, Gorchmynion Perygl Rhywiol, Hysbysiadau Rhybuddio Cipio Plant, Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Gwaharddebau gan yr Uchel Lys?
7. Oes yna unrhyw ddeddfwriaeth arall yn berthnasol, e.e. deddf aflonyddu?
8. Oes gan y plentyn ffôn gyda dyfais olrhain ymlaen ac, os felly, gan bwy y mae caniatâd i olrhain hon?
9. Ydy'r holl bobl sy'n berthnasol i'r plentyn yn ymwybodol o'r perygl y maent yn ei wynebu/y maent yn gosod eu hunain ynddo, h.y. ystyriwch ddatgelu i bobl berthnasol?
10. Ydy llety diogel yn bosibilrwydd ac os felly ydy'r heddlu wedi rhoi tystiolaeth i gefnogi hyn?
11. Oes yna unrhyw ddioddefwyr neu gerbydau amheus wedi cael eu hystyried am ANPR (Adnabod Rhif Cerbyd yn Awtomatig) i roi gwybodaeth am y canlynol:
 - Gweithgaredd y tu allan i gartrefi plant neu leoliadau eraill.
 - Cerbydau a ddefnyddir i gludo dioddefwyr rhwng trefi.
 - Cerbydau sy'n crwydro'r strydoedd yn edrych am blant.

12. Ydy staff CCTV wedi cael eu cyfarwyddo i edrych am weithgaredd fel dan ANPR uchod.
13. Taflenni gwybodaeth - Ystyriwch gylchredeg lluniau a manylion dioddefwyr a chyflawnwyr posibl ynghyd â manylion cerbyd i'r holl bobl berthnasol gan gynnwys yr Heddlu, Wardeniaid lleol, staff gorfodi eraill, gweithredwyr CCTV ac yn y blaen.
14. Tactegau dirgel lle bo'n briodol.
15. Efallai y bydd tasg ffynonellau yn ddewis.
16. Dylid ystyried **archwiliad DNA ac archwiliad fforensig arall** pan fydd yna beth tystiolaeth fod gweithgarwch rhywiol wedi digwydd. Dylid meddiannu eitemau o ddillad ac yn y blaen ac archwilio lleoliadau'n fforensig hyd yn oed pan fydd cwyn wedi ei gwneud. Gall DNA adnabod nifer sylweddol o gyflawnwyr. Os ydych chi'n meddwl bod plentyn mewn perygl o gamfanteisio rhywiol, gellir cymryd sampl DNA gwirfoddol a'i gyflwyno i'w gynnwys ar gronfa ddata DNA Personau Agored i Niwed (VPDD). Bydd y Swyddfa DNA yn gofyn am awdurdod gan Fwrdd Strategaeth DNA i ddefnyddio'r sampl hwn i ddibenion cau allan, ym mhob achos o CRhB lle yr amheuir mai'r rhoddwr yw'r dioddefwr. Pan fydd plentyn yn mynd ar goll yn gyson o'r lle mae'n derbyn gofal, dylid gwneud ymdrechion i gysylltu'n uniongyrchol â staff y cartref gofal a gwneud trefniadau i adfer tystiolaeth yn brydlon lle yr amheuir i droseddau rhywiol ddigwydd. Gallai meddiannu ffonau symudol a dillad fod yn allweddol i lwyddiant unrhyw erlyniad heb dioddefwr yn y dyfodol.
17. Gall **Ymchwiliad Ariannol** fod o gymorth i leoli plant agored i niwed sy'n mynd ar goll o'u cartref. Os ydych chi'n amau bod plant yn cael eu masnachu am ryw a bod y cyflawnwyr yn elwa'n ariannol, dylech gysylltu ag ymchwilwyr ariannol a chytuno ar strategaeth ymchwilio. Gall hyn fod yn berthnasol hefyd pan gredir bod y cyflawnwr yn cyflawni troseddau gyda chyffuriau yn ogystal. Efallai y bydd trafodion ariannol yn datgelu gwybodaeth gwariant, e.e. arhosiad mewn gwesty y gellir ei ddilyn i fyny neu ganfod tystiolaeth o dwyll budd-daliadau, y gellir erlyn cyflawnwyr a amheuir amdanynt.
18. **Ymweliadau â'r cartref** - os ydych chi'n credu bod dioddefwyr posibl yn mynd yn aml i gyfeiriad y cyflawnwr dan amheuaeth, yn enwedig pan roddwyd rhybudd o gipio, efallai y bydd yn briodol trefnu ymweliadau rheolaidd i gartref y cyflawnwr er mwyn sicrhau nad oes plant mewn perygl yn bresennol yno, a chadarnhau cyngor blaenorol.
19. **Gwestai** - lle mae cyflawnwyr CRhB yn mynd i westai yn aml ac mae'r rheolwyr yn methu ag atal hyn, dylech ystyried cysylltu â Safonau Masnach ynghylch cydymffurfio â deddfwriaeth. Mae dewisiadau eraill yn cynnwys:
 - Ymweliadau amlwg iawn arferol
 - Cyfarfod â'r rheolwyr ardal a rhanbarthol

- Defnyddio rhybuddion cipio ar gyfer rheolwyr a staff
- Atafaelu CCTV a chofrestri lletywyr.
- Archwilio ystafelloedd yn ffforensig.
- Caffael manylion talu a ddefnyddiwyd gan y cyflawnwyr
- Arsylwadau cudd
- Gall adran 14 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 fod yn berthnasol os bydd staff gwesty yn caniatáu i gyflawnwyr rentu ystafelloedd yn gyfnewid am arian a hynny gan wybod eu bod yn bwriadu cyflawni trosedd o'r fath.

20. Gall **Parciau a Chanol Dinasoedd** fod yn lleoliad lle y gwneir y cyswllt cychwynnol rhwng y dioddefwr a'r cyflawnwr; neu droseddau rhywiol. Os nodir parc neu leoliad neilltuol yng nghanol dinas, efallai y byddwch yn dymuno ystyried gweithio gyda'r awdurdod lleol i ddatblygu cynllun gweithredu ar y cyd yn cynnwys:

- Briffio Swyddog Diogelwch Cymunedol yr Heddlu (PCSO) a thimau plismona cymdogaeth a phatrôl hawdd eu gweld.
- Briffio staff perthnasol o asiantaethau eraill (Awdurdod Lleol, Swyddogion Diogelwch ac yn y blaen).
- Defnyddio CCTV a briffio Gweithredwyr CCTV.
- Arsylwadau cudd

21. Mae cyswllt yn aml rhwng **Siopau tecawê a chwmnïau tacsï** a digwyddiadau CRhB. Os yw'r staff/perchnogion yn amharod i gydweithredu, gallech ystyried:

- Briffio Swyddog Diogelwch Cymunedol yr Heddlu (PCSO), patrôl hawdd eu gweld yn y gymdogaeth ar adegau perthnasol.
- Defnyddio hysbysiadau rhybudd o gipio plant.
- Eryl ynghylch Troseddau Cipio Plant neu Droseddau adran 14 (Deddf Troseddau Rhywiol 2003).
- Goruchwyliaeth ddirgel, hefyd yn cynnwys goruchwyllo ffôn o bosibl.
- Cysylltu ag Adran Drwyddedu a Safonau Masnach Awdurdod Lleol gyda golwg ar ddiddymu trwyddedau.
- Cysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau ac Asiantaeth Ffiniau'r DU ynghylch cyflogeion anghyfreithlon.
- Ystyried Gorchmynion Cau.

22. **Cartrefi Plant** - Bydd rhai cyflawnwyr yn parcio cerbydau yn agos i gartrefi ac maent bob amser yn debygol o gysylltu â'r dioddefwr dros y ffôn i drefnu cyfarfodydd. Gallech ystyried:

- Cysylltu â Gwasanaethau Plant i sicrhau bod y cartref yn cofnodi patrymau o absenoldebau heb ganiatâd (heb adrodd amdanynt wrth yr Heddlu) a bod yr Heddlu'n cael eu diweddarau.
- Paratoi Cynllun Gweithredu Gwasanaethau Plant yr Heddlu, gan gytuno ar gamau ar y cyd ar gyfer adeg pan fydd y dioddefwr posibl yn mynd ar goll.
- Briffio staff gofal ynghylch enwau, lluniau a manylion cerbydau cyflawnwyr posibl a choladu a dadansoddi gwybodaeth gan staff y cartref gofal ynghylch digwyddiadau, e.e. manylion y cerbydau a welwyd ac yn y blaen.
- Patrôl hawdd eu gweld ar adegau perthnasol.
- Arsylwadau cudd
- Ystyriwch symud y dioddefwr i lety newydd i atal cyswllt ac i wasgaru grwpiau o ddiodefwyr a all fod yn mynd ar goll gyda'i gilydd.
- Cesglwch ffynonellau tystiolaeth posibl oddi wrth staff y cartref, e.e. rhestrau ffôn symudol a dillad pan fydd y dioddefwr yn dychwelyd ac y credir bod gweithgaredd rhywiol wedi digwydd.

23. **Ysgolion** - Efallai y canfyddir bod gan rai ysgolion broblemau neilltuol mewn perthynas â CRhB oherwydd bod un plentyn wedi cael ei dargedu ac yn tynnu cyfeillion i mewn i'r gamdriniaeth neu oherwydd bod cyflawnwyr efallai yn byw yn lleol neu wedi mynychu'r ysgol eu hunain. Efallai y byddwch yn dymuno ystyried:

- Rhoi gwybodaeth i staff yr ysgol drwy enwau, lluniau a manylion cerbydau cyflawnwyr posibl.
- Coladu a dadansoddi gwybodaeth gan staff ynghylch digwyddiadau.
- Staff ysgol yn cofnodi absenoldebau heb ganiatâd.
- Siarad â disgyblion am faterion CRhB a defnyddio patrôl hawdd eu gweld ar adegau perthnasol.
- Arsylwadau dirgel gyda'r ysgol fel "man codi".

24. **Statws mewnfudo** - Os byddwch yn amau mai yn ddiweddar y cyrhaeddodd y cyflawnwr y DU, dylid gwneud ymholiadau gyda UKBA er mwyn darganfod ei statws o ran mewnfudo.

25. **Atgyfeiriad MAPPA** - Os caiff y meini prawf priodol eu bodloni, gellid rheoli'r cyflawnwr fel achos MAPPA. Os nad oes gan y Gwasanaeth Prawf ran, efallai y bydd yn dal yn bosibl enwebu unigolyn fel Person Peryglus Posibl er mwyn i Arolygwr ganiatáu cynnwys amryw o asiantaethau, datgeliadau trydydd parti a chynnwys ar VISOR.

26. **Targeddu troseddau eraill** - gellid tarfu ar gyflawnwyr pe caent eu targedu am droseddau eraill gan gynnwys monitro Troseddau yn erbyn y Drefn Gyhoeddus.

27. **Technoleg** - Lle bynnag y bo modd dylid cynnal chwiliadau PACE Adran 18 ar safle'r cyflawnwr a'i gerbydau er mwyn sicrhau a diogelu tystiolaeth berthnasol gan gynnwys ffonau symudol, cyfrifiaduron a dyfeisiadau cadw data eraill. Efallai y bydd patrymau o alwadau ffôn yn datgelu deunydd fydd yn dystiolaeth o werth, yn enwedig os bydd absenoldebau dioddefwr o gartref gofal yn cyd-ddigwydd â derbyn galwadau o un rhif neilltuol.
28. **Facebook a'r cyfryngau cymdeithasol** - Er nad yw dioddefwyr CRhB fel arfer yn caniatáu mynediad ond i "gyfeillion" y maent yn eu hadnabod, gall mynd ar safleoedd Cyfryngau Cymdeithasol ddatgelu peth gwybodaeth. Efallai y byddwch yn dymuno ystyried cael yr awdurdod priodol i sicrhau mynediad pellach.
29. **Gwarant chwilio** - Efallai y bydd y wybodaeth a rennir mewn cyfarfod MASE yn ddigon ar gyfer ystyried cael gwarant i chwilio cyfeiriad cartref y cyflawnwr a amheuir. Mae'r mathau o warant a ddefnyddir yn cynnwys:
- Mae PACE yn rhoi gwarant i chwilio am dystiolaeth berthnasol.
 - Mae Adran 50 o'r Ddeddf Plant yn caniatáu mynediad a chwilio lle mae rheswm i gredu bod plentyn sy'n destun Gorchymyn Gofal, Amddiffyniad yr Heddlu neu Orchymyn Amddiffyniad yr Heddlu yn cael ei gadw mewn amgylchiadau sy'n drosedd dan Adran 49 o'r Ddeddf hon (cadw plentyn i ffwrdd heb awdurdod cyfreithlon).
 - Deddf Camddefnyddio Cyffuriau, gan fod cyswllt cryf rhwng delio mewn cyffuriau a dynion yn cymryd rhan mewn CRhB.

Atodiad 4 Grŵp Gorchwyl a Gorffen Datblygu Strategaeth CRhB CYSUR

Cylch Gorchwyl

Cefndir

Fe wnaeth yr Ymchwiliad Annibynnol i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn Rotherham, edrych i mewn i'r modd yr oedd asiantaethau yn Rotherham yn ymdrin â honiadau o gam-drin plant rhywiol, cyfundrefnol a masnachu dros gyfnod o un mlynedd ar bymtheg rhwng 1997 a 2013. Gwnaeth yr Ymchwiliad nifer o argymhellion yn ymwneud â materion un asiantaeth a materion amlasiantaethol, gan gynnwys rhai penodol i Fyrddau Diogelu Plant. Bydd angen i aelodau CYSUR ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd o fewn eu hasiantaethau unigol a hefyd ar lefel ranbarthol ac amlasiantaethol. Mae Heddlu Dyfed Powys ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad mewnol, Operation Celtic. Mae'r Coleg Plismona wedi cynhyrchu Cynllun Gweithredu Camfanteisio Rhywiol Cenedlaethol 2014-16.

Cytunwyd yng nghyfarfod Bwrdd Gweithredol CYSUR ar yr 16^{eg} o Ragfyr 2014 i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn datblygu ymateb cyson ledled y rhanbarth i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant.

Pwrpas y Grŵp

Pwrpas y grŵp gorchwyl a gorffen hwn yw datblygu strategaeth CRhB amlasiantaethol, ranbarthol a chynllun gweithredu, seiliedig ar y Cynllun Gweithredu Camfanteisio Rhywiol Cenedlaethol.

Aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Nododd Is-grŵp Strategol CYSUR gynrychiolwyr asiantaethau. Bydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Datblygu Strategaeth CRhB CYSUR yn cynnwys:

- Sian Howys, Cyngor Sir Ceredigion (cadeirydd)
- Steve Cockwell, Heddlu Dyfed Powys
- Diane Davies, Heddlu Dyfed Powys
- Pauline Galluccio, Bwrdd Iechyd Athrofaol Powys
- Debbie Pachu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Hannah Williams, y Gwasanaeth Prawf
- Rebecca Copp, Cyngor Sir Caerfyrddin
- Sue Morgan, Cyngor Sir Powys
- Luke Chapman, Cyngor Sir Penfro
- Cara Huggins, Cynrychiolydd Addysg
- Gill Adams, Cynrychiolydd Troseddau Ieuencid
- Liz Blazey, Rheolwr CYSUR
- Cefnogaeth weinyddol CYSUR
- Rhiannon Birk, Gwasanaeth SERAF Barnardo's Cymru

Os bydd aelodau yn methu â bod yn bresennol gall cynrychiolwyr enwebedig fod yn bresennol yn eu lle.

Caiff y grŵp ehangu ei aelodaeth hefyd i gynnwys partneriaid strategol berthnasol fel bo angen.

Strwythur Adrodd

Bydd y grŵp yn adrodd wrth Fwrdd Gweithredol CYSUR, drwy'r is-grŵp Strategol